# Gyrfaoedd fel optegydd lens cyffwrdd



Mae optegwyr lens cyffwrdd (CLO) yn optegwyr cyflenwi hyfforddedig (DC) sydd wedi cymryd y cam nesaf yn eu gyrfa i allu arbenigo mewn gosod a chyflenwi lensys cyffwrdd. Bydd eu rôl yn amrywio o gynnal asesiadau a dehongli data technegol i ddarparu ôl-ofal i gleifion megis adolygu'r ffitiadau ac unrhyw faterion a allai fod ganddynt.

## Beth mae optegwyr lens cyffwrdd yn ei wneud?

Mae optegwyr lens cyffwrdd (CLO) yn arbenigo mewn gosod lensys cyffwrdd ac yn sicrhau bod pobl yn gofalu am eu lensys a'u llygaid yn gywir. Maent wedi'u hyfforddi i ddarparu'r lens cyffwrdd mwyaf addas ar gyfer eu cleifion. Maent hefyn yn monitro iechyd llygaid  y person ar ôl eu ffitio i sicrhau nad oes unrhyw gymhlethdodau. Gyda hyfforddiant pellach, gall optegwyr lens cyffwrdd gymhwyso mewn mân gyflyrau llygaid a chael eu hachredu trwy Wasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW), lle byddant wedyn yn gallu darparu gofal i gleifion ag amrywiaeth o broblemau llygaid acíwt fel llygaid sych a llid yr amrant.

## Ble mae optegwyr lensys cyffwrdd yn gweithio?

- cymuned - practis optegol
- ysbytai
- Ymchwil a datblygiad
- diwydiant gweithgynhyrchu.

## Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn optegydd lensys cyffwrdd da?

- sgiliau cyfathrebu rhagorol gydag angerdd tuag helpu eraill - cymryd amser i wrando ar anghenion penodol pob person a darparu cyngor mewn modd clir
- yn gyfforddus wrth ymdrin â data technegol fel rhan o'r broses o ddewis y lensys gorau ar gyfer claf
- sgiliau da mewn datrys problemau a gwneud penderfyniadau
- diddordeb mewn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwil a'r datblygiadau diweddaraf ym maes gofal llygaid.

## Sut mae dod yn optegydd lens cyffwrdd?

**Cam un:** bydd angen i chi ddod yn optegydd cyflenwi cymwysedig trwy gwblhau cwrs a gymeradwyir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) a phasio arholiadau proffesiynol Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain (ABDO).

**Cam dau:** ar ôl cymhwyso a chofrestru gyda'r GOC gallwch wedyn ymgymryd â hyfforddiant arbenigol mewn gosod lensys cyffwrdd trwy ddysgu cyfunol sy'n cynnwys dysgu seiliedig ar ymarfer, coleg a chwblhau gwaith cwrs.

## Faint mae optegwyr lens cyffwrdd yn ei ennill?

Y cyflog cyfartalog ar gyfer optegydd lens cyffwrdd yw tua £33,000; gall hyn gynyddu gyda phrofiad, symud ymlaen i reoli ymarfer a thrwy hyfforddiant pellach.

## Eisiau darganfod mwy? Ymwelch â:

**Tregyrfa: https://careersville.heiw.wales/cy**

**Gyrfaoedd GIG Cymru: www.gyrfaoeddgigcymru.com**

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)